

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 20FED O FAI 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Evans, Stephen Williams, Ian Evans, Helen Jones, Manon Davies, Rhian Jones, Edmund Evans ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.

Y Cyngorydd Bari Evans a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 29ain o Ebrill 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.

A: Derbyniwyd e-bost oddi werth Mr Arwyn Vaughan ar ran Capel Saron yn diolch i'r Cyngor am y gefnogaeth arian tuag at gostau torri glaswellt y fynwent.

B. Derbyniwyd ymateb Cyngor Sir Ddinbych tuag at y materion canlynol a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

1. Cyfrifoldeb y datblygwr yw rhoi arwydd stad Pant-y-Celyn yn Llanrhaeadr.

2. Ni does yna cyllid am roi llwybr troed rhwng datblygiad newydd stad Maes Cinmeirch a Hafod-y-Bryn yn Llanrhaeadr.

3. Mae'r arwydd ym Mhen-y-groes yn cael sylw.

4. Mae'r arwydd wrth Ysgol Pant Pastynog yn cael sylw.

5. Mae'r Adran Briffyrdd yn edrych i mewn i'r llyn o ddŵr ar y ffordd wrth Fwch, Prion.

6. Mae'r Adran Briffyrdd yn edrych i mewn i'r ffordd rhwng Lôn a Rhewl Valley, Prion.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd fod Rebecca Musgrave, Swyddog Cyngor Sir Ddinbych, yn edrych am leoliad priodasol i'r arwydd symudol cyflymdra dros dro ym Mhentre' Llanrhaeadr.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.

Neb yn bresennol.

7. ARWYDDION PENTRE' PRION.

Penderfynwyd yr aelodau ar y lleoliad ar ben yr hysbysfwrdd ym Mhrion i'r arwydd newydd pentre' Prion ac i ofyn yn lleol am brisiau am gynhyrchu a gosod yr arwydd.

8. AROLWG ANGHENION TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.

Mae'r arolwg erbyn hyn ar y Wefan y Cyngor a chytunodd y Clerc i roi erthygl yn y Bedol a'r Cyngorydd Arwel Davies i roi erthygl yn y Gadlas.

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y misoedd Mai a Mehefin 2024

10. MATERION CYLLID.

A: Derbyniwyd a chadarnhawyd yr aelodau'r ffurflen ariannol flynyddol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2024.

B. Apwyntiad yr aelodau Mr Rhys Jones o Rhuthun yn Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2024.

C. Datganiad Banc y Cyngor £28,100.82.

D. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cwrs hyfforddiant Un Llais Cymru £40.00.

2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod misol y Cyngor £40.00.

3. Ffi fisol Bank HSBC £5.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Dim.

12. GOHEBIAETH.

Dim gohebiaeth newydd yw adroddi.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol yn y cyfarfod.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Dir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

A: Hen Ficerdy, Llanrhaeadr hyd at Llewesog Isa', Prion.

B. Pen Groes hyd at Cae Glas, Prion.

C. Rhewl Valley hyd at Blas Capten, Peniel.

D. Groesffordd, Prion hyd at Bentre' Llanrhaeadr.

E. Groesffordd Pentre Farm hyd at Pont-y-Ficerdy, Llanrhaeadr.

F. Efail-y-Gro hyd at Brÿn Teg, Prion yn cynnwys problem dwr ar y ffordd.

G. Pwll dwr rhwng Bwlch a Tan Rallt, Peniel.

H. Pwll dwr rhwng Tan Garth a Rhewl Valley, Peniel.

I. Ffordd rhwng Lôn a Thÿ Cerrig, Prion.

J. Rhwng yr King's Head a'r Lodge yn Llanrhaeadr.

K. Grid ar y A525 yn Llanrhaeadr.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – CYFARFOD BLYNYDDOL - NOS LUN 24AIN O FEHEFIN 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.